

Adra

Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg



2023/24

1.	Cyflwyniad.....	3
2.	Cydymffurfiaeth â'r Cynllun Iaith Gymraeg	4
3.	Sgiliau Iaith Staff a Hyrwyddo'r Gymraeg	11
4.	Rheolaeth a Gweinyddiad y Cynllun.....	16
5.	Gwasanaethau Rheng Flaen	18
6.	Dadansoddi Perfformiad	19

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1. Cyflwynir Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg Adra i Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 mewn cydymffurfiad â'r gofynion.
- 1.2. Mae [Cynllun Corfforaethol](#) Adra ar gyfer 2022-2025 yn nodi pwrpas clir o *“gefnogi ein cymunedau a darparu cartrefi o safon lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus”*. Noda'r Cynllun ein bod yn ymfalchïo yn y Gymraeg ac yn ei defnyddio ym mhopeth a wnawn ac rydym am barhau i wneud hynny. Erbyn 2025, ein gobaith yw cyflawni canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol a gwneud hynny drwy gadw at ein hegwyddor allweddol o fod yn llysgennad dros y Gymraeg yn y sector tai.
- 1.3. Manylir ymhellach yng nghorff yr adroddiad hwn ar y gwaith da sydd wedi digwydd yn ystod 2023/24 a hyn i gyd yn y gobaith o sicrhau bod y Gymraeg i'w chlywed ar ein haelwydydd ac yn ein cymunedau. Rydym am barhau i weithio gydag eraill ac ymgysylltu ymhellach i ledaenu'r gair ac yn y broses honno, annog Cymdeithasau Tai a chwmnïau eraill i wneud yr un fath. Rydym am i bawb fuddsoddi amser a'u calonnau yn y gwaith o weld y Gymraeg yn ffynnu ar draws Gogledd Cymru, a thu hwnt.

2.0 CYDYMFFURFIAETH Â'R CYNLLUN IAITH GYMRAEG

2.1 Dangosyddion Perfformiad

Mae tri dangosydd perfformiad yng Nghynllun Iaith Adra, fel sy'n cael ei nodi yn y tabl isod - adroddir ar berfformiad yn erbyn pob un o'r dangosyddion o fewn amrywiol adrannau'r adroddiad hwn.

Dangosydd	Manylion	Perfformiad 2023/24
DICCG01 (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth)	Nifer a chanran staff Adra sy'n medru siarad Cymraeg, fesul adran, gradd y swydd a gweithle (swyddfeydd a depo)	Adran 3
	Canran staff Adra sy'n medru siarad Cymraeg fesul adran	
	Canran staff Adra sy'n medru siarad Cymraeg fesul gradd y swydd	
	Canran staff Adra sy'n medru siarad Cymraeg fesul gweithle	
DICCG02 (Safon Gwasanaethau Iaith Gymraeg)	Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithrediad y Cynllun Iaith a chanran y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau corfforaethol Adra.	Adran 4
DICCG03 (Datblygu Sgiliau)	Nifer a chanran staff sydd wedi derbyn hyfforddiant Gloywi Iaith.	Adran 2

2.2 Cynllun Gweithredu

Mae ein Hadroddiad Monitro dros y blynyddoedd wedi cynnwys Cynllun Gweithredu a oedd wedi ei ddatblygu er mwyn sicrhau fod y mesurau o fewn Cynllun Iaith Adra yn cael eu cyflawni. Ers sefydlu Gweithgor Iaith Adra yn 2020, mae Cynllun Gweithredu ehangach wedi ei ddatblygu er mwyn ein cynorthwyo i fynd tu hwnt i gydymffurfio yn unig â'n Cynllun Iaith. Gweler ein Cynllun Gweithredu isod sy'n cynnwys elfennau o'r hen Gynllun Gweithredu yn ogystal â phwyntiau gweithredu newydd.

1. Siarter Iaith - creu Siarter iaith ddeinamig ac arloesol a fydd yn weledol ac amlwg i sicrhau bod staff Adra ac eraill yn ymwybodol o ymrwymiad Adra i'r iaith Gymraeg.

Cyf.	Gweithred	Dyddiad Targed Cwblhau	Diweddariad
1.1	Llunio a lansio Siarter iaith sy'n cynnwys amcanion Adra o ran yr iaith fel caiff ei nodi yng Nghynllun Iaith Adra, y Cynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Gymunedol.	Mawrth 2021	Siarter wedi ei lansio ar y 1af o Fawrth 2021 ac ar gael i'w gweld ar dudalen Adra a'r iaith Gymraeg ar ein Gwefan. Gwaith pellach wedi digwydd eleni i ddod a'r Siarter yn fyw drwy dechnoleg Deallusrwydd Artiffisial, gan ddatblygu fideo fer i staff ac is-gontractwyr.
1.2	Annog Cymdeithasau Tai eraill yng Nghymru a sefydliadau tebyg i fabwysiadu'r Siarter ar gyfer eu sefydliadau eu hunain a'u cynorthwyo i gydymffurfio â holl amcanion y siarter.	Parhaus	Siarter yn rhan o sgysiau y mae Uwch Swyddogion Adra yn eu cael gyda Chymdeithasau Tai eraill ar y cyd a mentrau eraill yn ymwneud â'r Gymraeg. Adra yn cynnal Cynhadledd iaith Ebrill 2024 a bydd y siarter yn cael sylw amlwg yma.
1.3	Adolygu effaith y Siarter yn flynyddol ar ddefnydd yr iaith ac adrodd hyn fel rhan o drefniadau monitro blynyddol Cynllun Iaith Adra.	Blynyddol	Adran fer ar y Siarter yn yr adroddiad hwn (3.3.3) a'r hyn sydd wedi ei gyflawni.

2. Ymgysylltu ag eraill - creu cysylltiadau gyda mentrau iaith, sefydliadau sydd â diddordeb penodol yn yr iaith a chwmnïau sydd wedi neu a fyddai'n cael budd o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu sefydliadau.

Cyf.	Gweithred	Dyddiad Targed	Diweddariad
2.1	Cynnal tudalen ar wefan Adra am yr iaith Gymraeg fel bod gan rhanddeiliaid allanol wybodaeth ar gael yn hawdd iddynt am ymrwymiad Adra i'r iaith ac i ddenu pobl i gyd-weithio efo ni ar fentrau ieithyddol.	Parhaus	Tudalen Adra a'r Iaith Gymraeg yn fyw sy'n cynnwys ein gweledigaeth o ran y Gymraeg a'n Siarter Iaith. Mae gwybodaeth ddefnyddiol arni fel gwybodaeth am y cwrs blasu Cymraeg Gwaith y mae Adra wedi ei ddatblygu gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar gyfer gweithwyr y Sector Tai Cymdeithasol a linc i Gyflwyniad i Iaith a Diwylliant Gwynedd.
2.2	Cael ein gweld fel partner allweddol gan eraill fel sefydliad a all gynorthwyo i gynyddu defnydd y Gymraeg	Parhaus	Mae Adra yn aelod o Fforwm Iaith Gwynedd a sefydlwyd yn 2023. Cyngor Gwynedd sy'n arwain y fforwm ac mae sefydliadau fel Grŵp Llandrillo Menai, Yr Urdd, Parc Cenedlaethol Eryri, Mudiad Meithrin, Llywodraeth Cymru, Prifysgol Bangor yn rhan o'r fforwm hefyd. Prif ddiben y fforwm yw dod ynghyd i weld pa bethau gallwn gyd-weithio arnynt yn lle bod gwaith yn cael ei ddyblygu dros y sir. Cysylltiadau pellach wedi eu gneud gyda Mentrau Iaith y Gogledd Ddwyrain gydag Adra yn mynychu cyfarfodydd iaith ar draws y rhanbarth bellach.
2.3	Gweithio ymhellach gyda Chomisiynydd y Gymraeg i gael ein gweld fel y Gymdeithas Dai sy'n arwain yn y maes ieithyddol yng Nghymru lle mae eraill yn troi atom am arweiniad a chynghor.	Parhaus	Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi derbyn gwahoddiad i siarad yng Nghynhadledd Iaith Adra ar yr 30fed o Ebrill 2024 lle bydd trafodaeth ar gydweithio ymhlith cymdeithasau tai er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Iaith pan ddônt i rym. Adra yn awyddus i fod yn gwmni angor fydd yn cydweithio

			gyda'r Comisiynydd dros y flwyddyn sydd i ddod i hwyluso gweithrediad y safonau newydd.
2.4	Adnabod diwrnodau/wythnosau arbennig sy'n dathlu'r Gymraeg (e.e. diwrnod Hawliau'r Gymraeg ym mis Rhagfyr, Diwrnod Shwmae Sumae ym mis Hydref, Dydd Gŵyl Dewi) a hyrwyddo a chefnogi'r diwrnodau yma drwy ein cyfryngau cymdeithasol / neges i staff ayb.	Parhaus	Ein Cynllun Cyfathrebu Cymraeg yn adnabod dyddiadau a gwyliau arbennig lle gallwn gynllunio ymlaen llaw pa negeseuon rydym am eu rhannu mewn perthynas â'r iaith.
2.4	Cynnal Cynhadledd Iaith i ddechrau trafodaethau am roi Safonau'r Gymraeg ar waith yn y Sector Tai Cymdeithasol ynghyd ag annog gweithio mewn partneriaeth ar fentrau yn ymwneud â'r Gymraeg.	Ebrill 2024	Trefniadau mewn lle ar gyfer Ebrill 30ain 2024. Siaradwyr gwadd yn cynnwys Comisiynydd y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, yr Urdd, Menter Iaith Gwynedd.

3. Cymraeg yn ein Cymunedau - hybu gwerthoedd iaith Gymraeg Adra yn y broydd llai Cymraeg eu natur lle rydym bellach yn gweithredu er mwyn dylanwadu a denu mwy o bobl i ddysgu'r Gymraeg.

Cyf.	Gweithred	Dyddiad Targed	Diweddariad
3.1	Adnabod tenantiaid di-Gymraeg sy'n awyddus i ddysgu'r Gymraeg a'u cynorthwyo ar y llwybr cywir i gael hyfforddiant addas.	Parhaus	Cyllideb ar gael i gynnig cyrsiau dysgu Cymraeg i denantiaid o dan faner ein Strategaeth Gymunedol. Bydd gwaith pellach yn digwydd ar hyn yn ystod 2024/25 yn dilyn adborth a gafwyd o Banel Cwsmeriaid lle mynegodd 12 tenant eu bod yn dymuno cael hyfforddiant dysgu Cymraeg neu wella eu Cymraeg.
3.2	Gweithio gyda'n Tîm Cyswllt Cymunedol i drefnu digwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ein cymunedau.	Parhaus	Yn ystod 2023/24, gwelwyd llawer o weithgareddau cymunedol yn digwydd lle roedd y Gymraeg i'w gweld a'i chlywed o Ddathlu Dydd Gŵyl Dewi i sesiynau Glanhau Stadau.
3.3	Datblygu pecyn croeso i denantiaid newydd sy'n cynnwys gwybodaeth ar ddigwyddiadau yn eu hardaloedd a cyfeirio at wasanaethau dysgu Cymraeg ayb	Medi 2024	Cwsmeriaid newydd Adra yng Ngwynedd yn derbyn copi o Gyflwyniad i Iaith a Diwylliant Gwynedd drwy linc e-bost fel rhan o'r pecyn croeso.

4. Cydymffurfiaeth Fewnol - sicrhau ein bod yn cydymffurfio â holl ofynion ein Cynllun Iaith ac yn adrodd ar berfformiad yn flynyddol i

Gomisiynydd y Gymraeg yn unol â'u gofynion

Cyf.	Gweithred	Dyddiad Targed	Diweddariad
4.1	Cynnal bas data ar ddewisiadau iaith staff presennol.	Parhaus	Gwybodaeth ar allu ieithyddol staff yn cael ei gasglu a'i nodi ar fas data gan Adran Adnoddau Dynol. Mae 98% o staff parhaol Adra yn gallu siarad Cymraeg.
4.2	Cynnal cofrestr o gwynion.	Parhaus	Cofrestr o gwynion Adra yn cael ei gynnal yn ganolog o fewn y cwmni ac unrhyw gwynion yn cael eu cyfeirio at y Pennaeth Llywodraethu. Derbyniwyd 1 gŵyn ffurfiol yn ystod 2023/24, mwy o wybodaeth yn adran 4.2 yr adroddiad hwn.
4.3	Adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg am gydymffurfiaeth Adra â'i Gynllun Iaith Gymraeg a nodi'r hyn sy'n cael ei wneud i fynd tu hwnt i gydymffurfio yn unig.	Blynyddol	Caiff yr adroddiad monitro ei gyflwyno yn flynyddol i'r Comisiynydd yn unol â'r gofynion arno.

5. Monitro Effaith - i sicrhau bod ein gwaith yn ymwneud â'r iaith yn effeithiol, byddwn yn monitro effaith drwy'r dulliau a nodir isod.

Cyf.	Gweithred	Dyddiad Targed	Diweddariad
5.1	Byddwn yn asesu drwy ein harolwg boddhad staff pa effaith mae gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ei gael ar foddhad ein staff.	Arolwg Gorffennaf 2023	Roedd cwestiwn wedi ei gynnwys yn arolwg Boddhad Staff 2023 am y Gymraeg yn Adra. Roedd 98% o staff Adra yn ystyried bod Adra yn rhoi lle blaenllaw i'r Gymraeg a'u bod yn falch iawn o hynny.
5.2	Adolygu tystiolaeth a monitro effaith datblygiadau Adra ar y Gymraeg.	2022/23 ac yna parhaus	Adran Datblygu Adra wedi comisiynu yr Ymgynghorydd Iaith Dylan Bryn i lunio Holiadur i gasglu gwybodaeth gan gwsmeriaid yn ein datblygiadau newydd mewn perthynas a'r Gymraeg. Swyddogion wedi bod allan yn cynnal holiaduron mewn 4 ystâd yn ystod 2022/23 ac wrth symud ymlaen bydd yr holiaduron yn cael eu llenwi yn ystod ymweliadau adolygu tenantiaethau 12 mis wedi symud mewn.

3.0 SGILIAU IAITH STAFF A HYRWYDDO'R GYMRAEG

3.1 Sgiliau Iaith Gymraeg Staff

Cesglir gwybodaeth am allu ieithyddol staff gan yr Adran Adnoddau Dynol. Ar ddiwedd 2023/24, roedd 98% o staff Adra yn gallu siarad Cymraeg. Adroddwyd yn 2022/23 bod 92% o'n staff yn gallu siarad Cymraeg. Gallwn briodoli'r cynnydd hwn i drosiant cyffredinol staff a bod y gweithlu yn tyfu.

Adroddir y data isod yn unol â chymal 7.2.2 o'r Cynllun Iaith:

DICCG01 (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) - Nifer a chanran staff Adra sy'n medru siarad Cymraeg, fesul adran, gradd y swydd a gweithle. Rhennir yr wybodaeth hefyd i staff parhaol a staff dros dro.

Gwybodaeth fesul Cyfarwyddiaeth

Cyfarwyddiaeth	Parhaol				Dros Dro			
	Nifer o staff	Siaradwyr Cymraeg	Dysgwyr	%	Nifer o staff	Siaradwyr Cymraeg	Dysgwyr	%
Asedau ac Isadeiledd	202	189	5	96	9	9	0	100
Cwsmeriaid a Chymunedau	93	92	1	100	4	4	0	100
Adnoddau	52	52	1	100	2	2	0	100
Prif Weithredwr	6	6	-	100	-	-	-	-
Cyfanswm staff	353	339	7	98	15	15	0	100

Gwybodaeth yn ôl gradd y swydd

Lefel Rheoli	Parhaol				Dros Dro			
	Nifer o staff	Siaradwyr Cymraeg	Dysgwyr	%	Nifer o staff	Siaradwyr Cymraeg	Dysgwyr	%
Aelodau Tîm	259	246	7	98	15	15	0	100
Rheolwyr Canol	88	87	0	99	-	-	-	
Tîm Arweinyddiaeth	6	6	0	100	-	-	-	
Cyfanswm	353	339	7	98	15	15	0	100

Gwybodaeth fesul Gweithle

Lleoliad	Parhaol				Dros Dro			
	Nifer o staff	Siaradwyr Cymraeg	Dysgwyr	%	Nifer o staff	Siaradwyr Cymraeg	Dysgwyr	%
Tŷ Coch, Parc Menai	163	159	4	100	2	2	0	100
Tŷ Gwyrddfai, Penygroes	50	49	0	98	4	4	0	100
Dolgellau	11	10	0	90	-	-	-	-
Gweithredwyr Aml Sgil (dim lleoliad sefydlog)	124	117	2	96	9	9	0	100
Hen Balas	5	4	1	100	-	-	-	-
Cyfanswm	353	339	7	98	15	15	0	100

3.2 Hyfforddiant Iaith Gymraeg

- 3.2.1 Yn unol â dangosydd **DICCG03 - Datblygu Sgiliau**, adroddir bod 2 aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant dysgu Cymraeg ac 1 aelod o staff wedi bod ar gwrs Gloywi Iaith yn ystod y cyfnod dan sylw. Mae Adra yn gweithio'n agos gyda sefydliadau fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Nant Gwrtheyrn a Phrifysgol Bangor i gynnig hyfforddiant sy'n cyd fynd ag anghenion amrywiol ein staff sy'n awyddus i ddysgu'r Gymraeg neu wella a datblygu eu sgiliau.
- 3.2.2 Mae Adra yn annog gweithwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith ac wedi rhannu negeseuon ar 'Clic', mewnrwyd y cwmni, yn ystod y flwyddyn i roi gwybod am gyfle i fynychu hyfforddiant.
- 3.2.3 Rydym yn parhau gyda'n hymrwymiad fel cwmni i hyfforddiant iaith gan ein bod yn y gorffennol wedi profi peth anhawster wrth recriwtio i swyddi uwch; swyddi datblygu a swyddi technoleg. Er bod y Cynllun Iaith a'r Polisi Recriwtio a gymeradwywyd ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2018/19 yn rhoi mwy o hyblygrwydd wrth ymdrin â hyfforddiant iaith staff; mae'r un pwyslais yn cael ei roi i fod yn annog staff nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg i fod yn datblygu eu sgiliau ieithyddol gan eu trochi yn y diwylliant Cymreig o ddydd i ddydd.
- 3.2.4 Mae'n bwysig nodi bod Adra yn chwarae rôl a rhan bwysig wrth gynnig cyfleoedd hyfforddiant a phrentisiaethau i bobl ifanc. Rydym yn gweithio gyda cholegau ac ysgolion i godi ymwybyddiaeth am swyddi o fewn y maes tai. Mae gwaith parhaus yn digwydd i godi ymwybyddiaeth am [Academi Adra](#). Mae Academi Adra yn dod a nifer o gyfleoedd drwy Adra a'i bartneriaid i helpu pobl ddatblygu sgiliau a dod o hyd i waith. Gellir cynnig cefnogaeth i chwilio am gyflogaeth, hyfforddiant, cychwyn busnes eich hun a magu hyder. Drwy gynnig cyfleoedd fel

hyn i bobl ifanc weithio yng Ngwynedd drwy gyfrwng y Gymraeg rydym yn cyfrannu at sicrhau bod y bobl ifanc yma yn gallu aros ym mro eu mebyd a chael swyddi a chyfleoedd o safon.

3.2.5 Ym mis Mawrth 2022, cwblhawyd y gwaith gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddatblygu cwrs blasu galwedigaethol 'Cymraeg Gwaith' wedi ei deilwra yn arbennig ar gyfer y Sector Tai Cymdeithasol. Mae'r cwrs ar wefan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac ar gael i unrhyw un ei gwblhau yn rhad ac am ddim. Yn ystod 2022/23 roedd 13 o unigolion wedi dilyn y cwrs yn rhannol neu wedi ei gyflawni. Erbyn diwedd 2023/24, mae 60 wedi cwblhau'r cwrs. Byddwn yn defnyddio ein Cynhadledd 'Iaith ar Waith' ar y 30 Ebrill, 2024 i lansio'r cwrs yn swyddogol i godi ymwybyddiaeth ohono ac i annog mynychwyr o Gymdeithasau Tai i fynd a'r neges yn ôl i'w sefydliadau am y cwrs. Y gobaith yw, o fod wedi ymrwymo i'r cwrs hwn, y bydd unigolion yna yn mynd ymlaen i astudio lefelau uwch o ddysgu'r iaith. Bydd y cwrs yn arfogi y rhai sy'n ei ddilyn i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i gwsmeriaid drwy gyfrwng y Gymraeg ond hefyd cynorthwyo gyda tharged y Llywodraeth o sicrhau 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

3.3 **Hyrwyddo'r Gymraeg a Chodi Ymwybyddiaeth**

3.3.1 Hyrwyddir y Gymraeg ymhlith staff yn gyntaf oll trwy gynnwys Cynllun Iaith Adra o fewn pecynnau anwytho ar gyfer aelodau staff newydd. Hefyd, hyrwyddir y Gymraeg yn ystod sesiynau anwytho corfforaethol y mae pob aelod newydd o staff yn mynychu.

3.3.2 Rydym wedi datblygu fideo fer yn ddiweddar drwy ddefnyddio system arloesol AI o'r enw 'Synthesia' yn amlinellu Cynllun Iaith a Siarter Iaith Adra i staff. Bydd yn mynd yn fyw ar ein mewnrwyd ym mis Mai 2024 a gobeithiwn y bydd staff yn ei weld yn fuddiol ac y bydd yn codi ymwybyddiaeth mewn ffordd ddifyr a chryno.

3.3.3 Mae hyrwyddo'r Gymraeg yn weithgaredd sydd wedi digwydd yn gyson dros y misoedd diwethaf yn Adra fel rhan o ymgyrch 'Defnyddia dy Gymraeg'. Mae negeseuon cyson wedi bod yn cael eu rhannu ar ei tudalennau cyfryngau Cymdeithasol yn annog ein cwsmeriaid i ddefnyddio y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael gan Adra fel y wefan, siarad dros y ffôn a'n bod ni'n croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Mae dwy fideo wedi eu creu hefyd a'u rhannu yn sôn am y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael ac i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddyn nhw gyda ni yn Adra – mae hon yn neges glir rydym yn bwysleisio arni gyda cwsmeriaid a staff. Rydym hefyd wedi bod yn codi ymwybyddiaeth am gyfleoedd dysgu Cymraeg sydd ar gael i staff a bydd mwy yn digwydd ar hyn yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

3.3.4 Yn fwy anffurfiol, mae gwerth sôn yma hefyd am Gynhadledd Staff flynyddol Adra a gynhaliwyd ar y 29 Medi, 2023 yn Venu Cymru, Llandudno. Y siaradwr gwadd oedd Ian Gwyn Hughes o Gymdeithas Pêl Droed Cymru a chafwyd sgwrs ddifyr iawn ganddo am ei waith yn codi proffil

tîm Cymru a sut y bu iddo ysbrydoli a chynnau tân ym moliau'r chwaraewyr a dysgu iddyn gwir ystyr Cymreictod a hanes y Gymraeg. Roedd ei sgwrs yn ysbrydoledig ac yn addysgol iawn gyda nifer ohonom yn teimlo ein bod wedi cael gwers am hanes Cymru ynghyd â chyfarfod arwr.

3.3.5 Gweithgor Iaith Adra

Sefydlwyd Gweithgor Iaith Adra yn 2020. Mae'r gweithgor yn cynnwys staff o wahanol gyfarwyddiaethau yn Adra. Mae'r Gweithgor, ymhlith pethau eraill, yn gyfrifol am ledaenu'r gair o fewn y cwmni am y Siarter Iaith. Bydd aelodau'r gweithgor yn ddolenni cyswllt pwysig wrth sicrhau bod negeseuon ein Cynllun Iaith a gwaith y byddwn yn ymdrechu i ymgymryd ag o tu hwnt i'r Cynllun Iaith yn cael ei gyfleu a'i ddeall gan bobl o fewn eu cyfarwyddiaethau. Mae Cynllun Gweithredu wedi ei greu a phwyntiau o'r cynllun hwnnw wedi eu cynnwys yn ein prif gynllun gweithredu a welir ym mhwt [2.2](#) o'r adroddiad hwn.

3.3.6 Siarter Iaith Adra

Lansiwyd Siarter Iaith Adra ar y 1af o Fawrth 2021 i gyd-fynd â dathliadau dydd Gŵyl Dewi. Cafodd ei derbyn yn dda yn fewnol a gan ein partneriaid drwy gyfrwng ein gwefannau cymdeithasol amrywiol. Gellir gweld y Siarter yn ei chyfanwydd ar ein gwefan yma: <https://www.adra.co.uk/amdanom-ni/ein-cyfeiriad/siarter-iaith/>

Dyma sut ydym yn cwrdd â phob un o addewidion ein Siarter iaith:

	Ein haddewid	Sut rydym wedi cyflawni
1	Byddwn yn cadw at holl ymrwymadau ein Cynllun Iaith gan sicrhau ein bod yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.	Mae staff Adra yn ymwybodol o'n Cynllun Iaith a'r Siarter Iaith ac yn ymdrechu i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn cael y gwasanaeth gorau posib yn eu dewis iaith.
2	Byddwn yn sicrhau bod dulliau ymarferol ar waith i sicrhau y gall ein cwsmeriaid a darpar gwsmeriaid ymwneud â ni drwy gyfrwng y Gymraeg.	Mae ein holl staff rheng flaen yn y ganolfan alwadau yn ddwyieithog ac mae ein holl ddogfennau a gwybodaeth ar gael yn y ddwy iaith.
3	Byddwn yn agored a thryloyw mewn perthynas â'n perfformiad ar faterion iaith Gymraeg drwy fonitro ac yn adrodd ar gydymffurfiaeth Adra gyda'i Gynllun Iaith yn flynyddol. Bydd hwn ar gael i'n holl gwsmeriaid ei weld.	Rydym yn adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg yn flynyddol ar ein perfformio ar faterion iaith. Bydd tudalen 'Adra a'r Gymraeg' ar ein Gwefan yn cynnwys yr adroddiad i'r Comisiynydd fel ei fod yn

		weladwy i'n holl gwsmeriaid a rhanddeiliaid.
4	Byddwn yn penodi Pencampwyr Iaith Gymraeg ar Fwrdd Adra i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn amlwg ar agenda strategol y cwmni.	Mae Pencampwr iaith wedi ei benodi ar Fwrdd Adra ers 2017 ac mae'n hynod gefnogol o waith Adra mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae ef hefyd yn aelod o'r Gweithgor iaith.
5	Byddwn yn creu Gweithgor Iaith cynhwysol o blith staff Cymraeg, dysgwyr a'r rhai di-gymraeg i gynorthwyo'r cwmni sicrhau bod y Gymraeg yn flaenllaw yn y gweithle.	Mae Gweithgor iaith wedi ei greu ac yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn. Mae Cynllun Gweithredu wedi ei lunio i symud agenda iaith y cwmni yn ei flaen gydag arweiniad aelodau'r gweithgor.
6	Byddwn yn ei gwneud hi'n hawdd i gwsmeriaid a'r cyhoedd gyflwyno unrhyw gŵyn i ni mewn perthynas â'r Gymraeg ac yn dysgu gwersi o unrhyw gamgymeriadau a wnawn.	Mae gan Adra bolisi cwynion cynhwysfawr ar waith a gall unigolion gyflwyno cwynion mewn perthynas â'r Gymraeg drwy ddilyn y broses ynghlwm â'r polisi hwn.
7	Byddwn yn defnyddio ein rôl fel darparwr tai mewn ardaloedd di-gymraeg i fod yn hybu'r iaith yn y ffordd gorau y gallwn ni.	Ynghlwm â Chynllun Gwaith y Gweithgor iaith mae'r awydd i sicrhau bod y Gymraeg yn treiddio i'r cymunedau llai Cymreig a gallwn ddefnyddio ein dylanwad a gweithio gydag eraill i wneud hyn wrth i ni ddatblygu a rheoli mwy o dai ar draws gogledd Cymru.
8	Byddwn bob amser yn hybu ac yn annog cwsmeriaid, staff a phartneriaid i ddefnyddio'r Gymraeg gan ein bod yn cydnabod bod y Gymraeg yn hanfodol i fywyd a diwylliant llawer iawn o'r cymunedau yr ydym yn gweithredu ynddynt ac yn elfen hollbwysig o'n gwaith.	Mae gennym le a'r dylanwad fel Cymdeithas Dai o faint sylweddol i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a chynorthwyo staff a chwsmeriaid sy'n ddysgwyr i siarad yr iaith drwy fod yn amyneddgar a'u cynorthwyo ar eu taith a chynnig cyngor ac arweiniad. Mae aelodau Gweithgor iaith Adra yn chwarae rôl benodol yn hyn o beth gan eu bod yn bencampwyr iaith o fewn y sefydliad ac yn byw wrth werthoedd y Siarter iaith.

9	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gwrdd â'r targed uchelgeisiol o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.	Rydym wedi sefydlu ac yn datblygu cysylltiadau a thrwy hyn, gobeithio y gallwn adnabod y cwsmeriaid hynny sy'n byw yn ein cartrefi sy'n ddi-gymraeg a'u hannog i fynd ati i ddysgu. Bydd hyn yn mynd peth o'r ffordd o gynorthwyo targed LIC.
10	Byddwn yn gweithio gydag eraill i rannu arfer da mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg	Gan fod Cynllun Iaith Adra yn gadarn a chynhwysfawr iawn, rydym fel cwmni wedi arfer cadw at y safonau uchaf un mewn perthynas â'r iaith ers sefydlu Adra yn 2010. Byddwn mewn lle da i helpu eraill ar y ffordd i gydymffurfio â'r Safonau pan ddônt i rym ar gyfer Cymdeithasau Tai a gobeithio y gallwn roi o'n profiad helaeth i eraill.

4.0 RHEOLAETH A GWEINYDDIAD Y CYNLLUN

4.1 Trefniadau Llywodraethu a Chraffu Mewnol

Cyfrifoldeb Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Adra yw monitro gweithredu'r Cynllun Iaith fel y caiff ei nodi yn ein Rheolau Sefydlog. Mae'r Adroddiad Monitro hwn yn asesu cydymffurfiaeth yn erbyn y Cynllun. Cyflwynwyd yr adroddiad monitro hwn i'r Pwyllgor uchod ar y 12^{fed} o Fehefin, 2024 i'w gymeradwyo cyn ei gyflwyno i'r Comisiynydd.

4.2 Cwynion Iaith

Ymdrinnir â chwynion am weithrediad Cynllun Iaith Gymraeg Adra yn unol â Pholisi Cwynion Adra. Mae hyn yn sicrhau cysondeb yn y ffordd y mae cwynion yn cael eu trin.

Derbyniwyd 1 gŵyn ffurfiol yn ystod y cyfnod dan sylw yn ymwneud â methiant Adra i gyflawni ei Gynllun Iaith gan bod achwynydd wedi derbyn dogfennau uniaith Saesneg wrth i Adra yrru dogfennau at rhan helaeth o'n cwsmeriaid fel rhan o drefniadau rhoi Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) ar waith. Derbyniodd yr achwynydd ymddiheuriad diffuant am y gwall gydag eglurhad ei fod wedi digwydd oherwydd diffyg diweddiariad ar ein systemau. Cadarnhawyd bod y broblem wedi ei datrys a diolchwyd iddo am ddod a'r mater i sylw Adra. Gyrrwyd y dogfennau yn Gymraeg i'r cwynydd hefyd. Fe aeth yr achwynydd a'r gŵyn at Gomisiynydd y Gymraeg a bu i Adra gyd-weithio'n llawn gyda'r Comisiynydd drwy ymateb a rhannu gwybodaeth yn unol â'r gofynion.

4.3 Gwefan a Chyfyngau Cymdeithasol

Mae mewnwrwyd, [gwefan](#) a sianelau cyfyngau cymdeithasol amrywiol Adra yn ddwyieithog ac yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith. Caiff y cynnwys ei wirio am gywirdeb cyn ei lwytho a'i gyhoeddi; mae adrannau unigol yn gyfrifol am nifer o'r tudalennau fel gosod, datblygu a swyddi. Caiff pob perchennog tudalen neges bob chwarter i'w hannog i wirio cynnwys y darnau perthnasol o'r wefan sy'n gyfrifoldeb arnyn nhw ac mae Swyddog Cyfathrebu Digidol Adra yn cynnal hapwiriadau o'r wybodaeth sydd ar y wefan gorfforaethol a'r fewnrwyd i sicrhau ansawdd. Gallwn sicrhau monitro manwl a chysondeb gyda threfniant fel hyn. Nid oes unrhyw gynlluniau i gynyddu'r cynnwys Cymraeg gan fod popeth yn gwbl ddwyieithog yn unol â'r trefniadau presennol.

Nodir hefyd bod Adra yn sicrhau dwyieithrwydd wrth rannu gwybodaeth a chyfathrebu ar wefannau cymdeithasol fel Facebook, X/Twitter, Instagram a LinkedIn. Rheolir cynnwys y tudalennau hyn gan Dîm Cyfathrebu Adra er mwyn sicrhau ansawdd a chywirdeb yn ogystal â'r safon ieithyddol.

Mae'r Tîm Cyfathrebu yn rhagweithiol iawn hefyd ar y cyfyngau cymdeithasol yn rhannu ac yn ail rannu negeseuon sefydliadau eraill sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae'n amcan ganddynt rannu unrhyw wybodaeth am ddigwyddiadau iaith Gymraeg a gwersi neu hyfforddiant iaith sydd ar gael er mwyn sicrhau bod y negeseuon yn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosib.

Mae gennym adran benodol ar ein gwefan i nodi ein gwaith ynghlwm â'r Siarter. Bydd y dudalen hon yn fan cyfeirio hwylus i unrhyw un sydd am weld y gwaith da sy'n digwydd yn Adra mewn perthynas â'r Gymraeg.

4.4 Cyfarfodydd a Gweinyddiad

Mae holl gyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau Adra yn ddwyieithog gyda swyddogion yn cyflwyno eu papurau ac yn cael eu hannog i wneud hynny yn Gymraeg fel y brif iaith fusnes. Mae'r holl bapurau yn cael eu cyfieithu cyn cyfarfodydd gyda chyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael ar y diwrnod i annog defnydd o'r iaith Gymraeg.

4.5 Iaith Gymraeg ar Fwrdd Adra

Mae Bwrdd rheoli Adra yn cynnwys aelodau tenantiaid, aelodau annibynnol, aelodau yn enwebai gan Gyngor Gwynedd ac aelodau cyfetholedig. Roedd 13 aelod ar y Bwrdd yn y cyfnod dan sylw a bod 10 o'r aelodau yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r holl aelodau yn ymfalchïo bod Adra yn gymdeithas dai sy'n gweithredu'n llwyr ddwyieithog ac yn awyddus i'w gweld ni'n gwneud mwy o fewn y sector i gynorthwyo eraill weithredu'n ddwyieithog. Maent hefyd yn

awyddus ein bod yn adrodd ar allu ieithyddol y Bwrdd i'r Comisiynydd fel mater o arfer da ac yn ysbryd bod yn agored a thryloyw.

Adroddwn felly, ar gyfer 2023/24, bod 77% o'r Bwrdd yn siaradwyr Cymraeg.

Wrth recriwtio aelodau'r Bwrdd o'r newydd, caiff y Gymraeg ei nodi fel dymunol ar y swydd ddisgrifiad ac mae papurau'r Bwrdd ar gael yn ddwyieithog. Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael ym mhob cyfarfod i ganiatáu i'r Aelodau sgwrsio yn eu hiaith ddewisol fel y caiff ei grybwyll uchod yn 4.4.

Mae Adra wedi ymrwymo i ariannu unrhyw gyrsiau a gwersi Cymraeg y mae aelodau yn dymuno eu mynychu a gwnawn bopeth y gallwn i'w cefnogi i gyrraedd eu nod o fod yn siaradwyr Cymraeg i lefel o'u dewis.

Nodwn hefyd bod yna rôl Pencampwr Iaith wedi ei sefydlu ar y Bwrdd gyda Cai Larsen yn ymgymryd â'r swydd ers 2017. Mae'r Pencampwr yn gyfrifol am gynnal ffocws y Bwrdd o ran materion iaith Gymraeg a chefnogi Adra ym mhopeth y mae'n ei wneud i sicrhau bod y Cynllun Iaith yn cael lle haeddiannol ar bob lefel o fewn y sefydliad. Mae Cai hefyd yn aelod gwerthfawr o Weithgor Iaith Adra.

5.0 GWASANAETHAU RHENG FLAEN

5.1 Cynnydd yn Narpariaeth Gwasanaethau Rheng Flaen Ddwyieithog i Denantiaid

Mae pob gwasanaeth rheng flaen a ddarperir i denantiaid yn gwbl ddwyieithog gyda phob un o staff y Ganolfan Gyswllt yn gallu'r Gymraeg ac yn gallu ymdrin â phob agwedd o'u swydd yn hyderus yn y Gymraeg.

Yn ystod 2023/24, cyhoeddwyd 2 rifyn print dwyieithog o'n newyddlen tenantiaid gyda gwybodaeth am ein gwasanaethau ynghyd â straeon o'r sector tai. Gyrrwyd copi drwy'r post i bob un o'n cwsmeriaid.

Dilynir y drefn dwyieithrwydd wrth gyhoeddi unrhyw ffurflenni a gohebiaeth boed yn daflen wybodaeth ar sut i dalu rhent neu boster i godi ymwybyddiaeth am ddiwyddiadau penodol.

Rydym yn gyrru llythyrau at ein tenantiaid yn y lle cyntaf yn ddwyieithog hyd y gwyddwn pa iaith sydd orau ganddynt yn unol â chymal 4.1.4 ein Cynllun Iaith Gymraeg.

Mae gan Adra dudalen we Cymuned Adra lle ceir gwybodaeth, straeon a hanes am y cyfleoedd diweddaraf i gwsmeriaid yn eu hardaloedd. Mae'r dudalen yn newyddlen byw a digidol i gwsmeriaid gan rannu gwybodaeth am gyfleoedd sydd ar gael iddynt drwy gyfrwng y Gymraeg.

5.2 Cydymffurfiaeth Contractwyr â'r Cynllun Iaith

Mae gallu ein contractwyr i gydymffurfio gyda Mesur y Gymraeg a Chynllun Iaith Adra yn rhan o'r meini prawf dewis o fewn proses ffurfiol tendro Adra. Mae cyflwyniad tendr y cyflenwr yn

ffurfio rhan o'r contract terfynol rhwng Adra a'r cyflenwr felly mae'n ofyniad contractiol bod holl gontractwyr yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith. Mae'r Cynllun Iaith yn cael ei gynnwys gyda chyfleoedd contract a hysbysebiri gan Adra i hyrwyddo egwyddorion y Cynllun Iaith.

Mae Tîm Cyfathrebu Adra yn monitro deunydd cyfathrebu sydd wedi'i gynhyrchu gan gyflenwyr i'w rannu gyda thenantiaid, ac yn gweithio mewn ffordd ragweithiol gyda chontractwyr. Mae contractwyr Adra, sydd wedi eu comisiynu gan y tîm Asedau ac Isadeiledd, yn derbyn pecyn gwybodaeth sy'n cynnwys canllawiau ar gyfer cynhyrchu deunydd cyfathrebu iaith Gymraeg.

Wrth ddarparu gwasanaethau i denantiaid, mae contractwyr yn gwneud hyn yn newis iaith y cwsmer gan sicrhau bod ymgynghoriadau, taflenni gwybodaeth, posteri ac arwyddion ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Pan fydd contractwyr wedi trefnu eu gohebiaeth neu arwyddion eu hunain, byddant yn cael eu cyfeirio at y Swyddog Cyfathrebu Digidol i sicrhau ansawdd.

Caiff taflen gymorth ei rhannu gyda chontractwyr a darparwyr gwasanaeth gyda'r Cynllun Iaith i roi canllaw ar sut i gydymffurfio â chynllun iaith Adra a lle i fynd am gymorth ychwanegol.

Caiff gwybodaeth am y Cwrs Cymraeg Gwaith i'r Sector Tai Cymdeithasol yr ydym wedi ei ddatblygu gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol a drafodwyd yn 3.2.5 ei rannu ymhlith ein contractwyr hefyd. Mae'n rhoi cyfle i sicrhau bod pawb sy'n ymweld neu'n siarad gyda'n cwsmeriaid ar ein rhan yn gallu o leiaf cychwyn a chynnal sgwrs syml yn y Gymraeg. Mae hyn yn sicrhau rhoi gwasanaeth gorau un i gwsmeriaid yn eu dewis iaith.

6.0 DADANSODDI PERFFORMIAD

6.1 Blaenoriaethau a Thargedau

Ein blaenoriaethau a'n targedau ar gyfer 2024/25 yw parhau i gydymffurfio gyda'n Cynllun Iaith a sicrhau bod ein holl staff yn byw'r gwerthoedd o'i fewn. Byddwn hefyd yn parhau i weithio ac adeiladu ar y berthynas gadarnhaol gyda Chomisiynydd y Gymraeg i sicrhau ein bod yn ymateb ac yn cydymffurfio â'r gofynion.

Yn wir, mae Cynhadledd Iaith wedi ei threfnu ar gyfer Ebrill 30, 2024 yn ein swyddfa newydd, Tŷ Gwyrddfai ym Mhenygroes gyda Chomisiynydd y Gymraeg yn un o'n siaradwyr gwadd. Pwrpas y gynhadledd fydd dathlu llwyddiannau'r Gymraeg yn Adra gan rannu arfer da a hyrwyddo ein rhaglen waith yn ymwneud â'r Gymraeg - yn cynnwys polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Bydd hefyd yn gyfle i gychwyn trafodaethau ymhlith y sector am gyflwyniad y safonau iaith a sut gall Adra fod yn gwmni angor i annog a chefnogi cymdeithasau tai eraill i gydymffurfio gyda'r safonau pan ddaw'r amser. Byddwn yn cymryd y cyfle yn y gynhadledd hefyd i feithrin perthnasau a thrafod cyfleoedd cydweithio ar fentrau a gweithgareddau yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae nifer o siaradwyr gwadd eraill wedi cadarnhau eu bod ar gael i siarad yn y gynhadledd gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Yr Urdd a Menter Iaith Gwynedd. Edrychwn

ymlaen at y digwyddiad ac i adrodd yn ôl yn ein hadroddiad monitro nesaf amdano a'r deilliannau.

6.2 Arfer Da

Mae Adra yn cyflogi dau Gyfieithydd Corfforaethol i sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu papur safonol ar gael o fewn y cwmni. Drwy gyflogi cyfieithwyr yn uniongyrchol mae modd sicrhau cysondeb yn ein cyhoeddiadau yn ogystal â datblygu arbenigedd cyfieithu technegol o fewn y maes tai.

Arfer da arall yn Adra yw ein bod yn annog ein dysgwyr i gyfrannu yn Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol. Mae Cadeiryddion erbyn hyn yn gofyn ar ddechrau cyfarfodydd os yw rhai dysgwyr yn hapus bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn Gymraeg ac yn nodi'n glir bod croeso iddynt gyfrannu yn Gymraeg neu'n Saesneg eu hunain a'u hannog i ofyn am eglurhad am unrhyw beth. Mae hyn yn ffordd effeithiol o drochi ein dysgwyr ac ar yr un pryd rhoi cyfle iddynt cyfrannu ym mha bynnag iaith maent yn gyfforddus i wneud hynny. Mae Adra am i ddysgwyr wybod bod holl staff Adra yn cefnogi eu taith dysgu a'n bod ni am fod yn amyneddgar wrth iddynt gynyddu eu dealltwriaeth yn y gweithle.

Mae gan Adra ganllawiau ysgrifennu sy'n nodi'r arddull wrth gyfathrebu gyda'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid. Nodir ynddynt fod Adra yn siarad mewn ffordd gynnes a chyfeillgar ond gwybodus a hyderus ac o ganlyniad i hyn, adolygwyd ein holl lythyrau a dogfennau i sicrhau bod ein dulliau cyfathrebu yn addas ar gyfer ein cwsmeriaid. Mae'r canllawiau hefyd yn rhoi arweiniad i sicrhau bod ein cyfathrebu yn adlewyrchu'r ffaith ein bod yn sefydliad teg, agored, uchelgeisiol ac atebol.

Mae Adra erbyn hyn yn defnyddio system hybrid i gynnal cyfarfodydd Bwrdd gyda chyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael hefyd. Mae hyn yn galluogi i aelodau Bwrdd a staff un ai ymuno gyda chyfarfodydd o'u cartref neu o'r swyddfa a'u bod yn parhau i allu cyfrannu yn eu dewis iaith. Bu'n gryn her cael y dechnoleg i weithio ond yn dilyn treialu a chael adborth cadarnhaol gan y rhai yn bresennol, mae'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio ym mhob cyfarfod Bwrdd os oes rhai yn dymuno hynny. Byddwn hefyd erbyn hyn yn defnyddio'r system hybrid ar gyfer cyfarfodydd allanol gydag unigolion a chwmnïau.

6.3 Monitro Ansawdd

Mae Adra yn awyddus iawn i dderbyn sylwadau ar y gwasanaethau y mae'n ei ddarparu i gwsmeriaid. Rydym yn annog ein cwsmeriaid i gyflwyno sylwadau mewn amryw o ddulliau a chaiff materion eu dwyn i sylw'r Uwch Dîm Rheoli. Mae ein Holiadur Boddhad Cwsmer blynyddol yn edrych, ymhlith pethau eraill, ar y ffordd yr ydym yn cyfathrebu gyda'n cwsmeriaid.